


**MODEL Y CONSORTIWM
CYLCH CYNLLUNIO, GWEITHREDU A MONITRO**



MODEL Y CONSORTIWM CYLCH CYNLLUNIO, GWEITHREDU A MONITRO

Disgrifiad o Gamau'r Cylch

Cam 1: Gwybodaeth a Thystiolaeth

Bydd cyd-gynllunio a darparu dysgu ôl-16 yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth.

Bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn dod â gwybodaeth a thystiolaeth at ei gilydd er mwyn adnabod anghenion dysgu'r ardal;

Fe fydd y wybodaeth hon yn cynnwys cyrhaeddiad presennol yr ardal o ran amcanion y Consortiwm a'r tueddiadau, yn ogystal â chynnwys data manylach ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol; natur ac ansawdd y dysgu a chyrhaeddiad y dysgwr.

Fe fydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ofynion yr economi a chyflogwyr lleol, y sectorau tŵf, a'r sectorau hynny fydd yn cynnig cyfleon gwaith gwerth uchel i'r dyfodol;

Yn ogystal, bydd disgwyliadau Llywodraeth Cymru, rhaglen Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r agenda bolisi genedlaethol ehangach wedi eu hadnabod a'u nodi

Wrth gywain y wybodaeth yma bydd y Bartneriaeth wedi trafod gyda fforymau proffesiynol maes addysg a hyfforddiant; gydag asiantaethau gyrfa a gwaith, gyda fforymau cyflogwyr ac wedi ceisio barn pobl ifanc.

Bydd y wybodaeth yma a'r prif negeseuon yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Arweiniol.

Cam 2 : Y Disgwyliad Cyfeiriad

Bydd y Bwrdd Arweiniol yn ystyried y wybodaeth a'r prif negeseuon gyflwynir gan y Bartneriaeth Ddysgu, ac ar sail y dystiolaeth bydd y Bwrdd Arweiniol yn nodi ei ddisgwyliad o ran y cyfeiriad strategol.

Un engraifft bosib o ddisgwyliad strategol o'r fath fyddai adnabyddiaeth o'r angen i roi sylw penodol i ehangu'r cyfrwng Cymraeg, neu i'r elfen alwedigaethol e.e. yn Llŷn dyweder. Engraifft arall bosib fyddai adnabyddiaeth o'r angen i roi sylw penodol i ddatblygu darpariaeth ddysgu ar gyfer meysydd penodol neu sectorau sgiliau er mwyn llenwi bwlch neu i gwrdd â gofyn neu gyfle economaidd.

Bydd y Disgwyliad Cyfeiriad yn cael ei drosglwyddo i'r Bartneriaeth Ddysgu er mwyn gosod y sail strategol ar gyfer llunio'r Fanyleb.

Cam 3: Y Fanyleb

Bydd y Fanyleb yn cael ei llunio gan y Bartneriaeth Ddysgu er mwyn ymateb i'r anghenion, y cyfleon a'r disgwyliadau strategol fydd wedi eu hadnabod trwy Cam 1 a 2;

Bydd y ddogfen yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer y cydweithio rhwng y darparwyr.

Hon fydd y ddogfen fydd yn gosod y sail i Gynnig/ion y darparwyr ar y cyd, ac fe fydd yn crynhoi'r wybodaeth fydd ei hangen ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer yr ardal, ac yn nodi'r Meini Prawf fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer ystyried y Cynnig/ion.

Bydd y Fanyleb yn crynhoi: uchelgais ac amcanion yr ardal; cyrhaeddiad presennol yr ardal, cryfderau a gwendidau; y tueddiadau; lle gwelir dyblygu cyrsiau ar hyn o bryd neu grwpiau dysgu sy'n arbennig o fychan; unrhyw fylchau penodol o ran maes dysgu neu o fewn ardal lai o fewn Gwynedd ac Ynys Môn; gofynion yr economi a.y.y.b.

Bydd unrhyw ofynion penodol o ran cyrraedd amcanion yr ardal dros gyfnod yn cael eu nodi'n glir, ynghyd ag unrhyw arweiniad o ran rhoi sylw e.e. i faterion ansawdd, agweddau natur a chyfrwng y dysgu; iaith y dysgu; materion cynhwysedd a chydraddoldeb; ac i agweddau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Fe fydd y Fanyleb yn cael ei chyflwyno i'r darparwyr er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r gwaith o gyd-lunio eu Cynnig/ion cwricwlaidd.

Cam 4 : Y Cynnig

Mae gofyn eisoes ar ddarparwyr i ddatblygu cynnig cwricwlaidd i'w gyflwyno i'r Gweinidog. Mae cydweithio o gwmpas y dasg hon wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ond heb drefn gyson i sicrhau fod cwricwlwm cydlynus ar gael o fewn yr ardal. Fe fydd dogfen y Cynnig gan y cyd-ddarparwyr yn sefydlu'r cynnig cwricwlaidd mewn modd cydlynus ac ar sail tystiolaeth o angen a'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr ardal.

Bydd y Cynnig yn fodd i'r cyd-ddarparwyr nodi sut maent wedi ystyried gofynion y Fanyleb a sut mae cynnwys y Cynnig yn ymateb i'r gofynion hynny.

Fe fydd y Cynnig yn cynnwys pa gyrsiau ddylai fod ar gael yn yr ardal ac ym mha leoliadau – y darparwyr (nid y Bartneriaeth Ddysgu na'r Bwrdd Arweiniol) fydd yn cyd-gynllunio hynny ac ar draws sefydliadau ysgolion a cholegau.

Fe fydd y Cynnig yn manylu ar e.e. agweddau ansawdd; agweddau natur a chyfrwng y dysgu boed yn academiaidd neu alwedigaethol, boed e.e. wyneb i wyneb neu ddigidol; iaith y dysgu; agweddau adnodd a chost; agweddau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gan gynnwys unrhyw ofynion cludiant neu deithio a.y.y.b. I bob pwrpas bydd y ddogfen yma yn gynllun gweithredu.

Gall y Cynnig fod ar sail ardaloedd cydweithio llai o fewn Gwynedd ac Ynys Môn, ond yr un fydd natur y gofyn o ran y cynnwys.

Bydd y Cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth Ddysgu.

Cam 5: Argymell y Ddarpariaeth

Fe fydd y Bartneriaeth Ddysgu yn ystyried pob Cynnig yn erbyn y Meini Prawf er mwyn adnabod os ydi'r Cynnig/ion yn cyfateb i ofynion yr ardal, gan gynnwys gwirio nad oes unrhyw ddyblygu diangen neu fylchau posib yn y ddarpariaeth gynnigir e.e. o ran y cyrsiau neu leoliad;

Wrth ystyried y Cynnig/ion os bydd aneglurder neu os rhagwelir problem bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn trafod ymhellach gyda'r cynigydd/cynigwyr er mwyn sicrhau datrysiad. Y bwriad fydd i'r Rheolwr Prosiect gadw mewn cysylltiad cyson gyda'r darparwyr wrth i'r Cynnig/ion gael eu datblygu, a thrwy hynny adnabod unrhyw broblemau a'u datrys yn fuan.

Wrth ystyried y Cynnig/ion bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn trafod gyda, ac yn gwahodd sylwadau proffesiynol ffurfiol y ddau Awdurdod Addysg. Bydd y sylwadau proffesiynol ffurfiol yma yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Arweiniol gydag argymhellion y Bartneriaeth Ddsygu;

Bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn cyflwyno ei argymhellion i'r Bwrdd Arweiniol ynghyd â'r rhesymau dros yr argymhellion wneir.

Cam 6: Cytuno'r Ddarpariaeth

Bydd y Bwrdd Arweiniol yn ystyried argymhellion y Bartneriaeth Ddysgu a dod i gytundeb ar y ddarpariaeth ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

Wrth ddod i gytundeb ar y ddarpariaeth bydd y Bwrdd Arweiniol yn trafod eu sylwadau proffesiynol gyda'r ddau Awdurdod Addysg.

Bydd y cytundeb ar y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno i'r darparwyr ar gyfer gweithredu.

Cam 7: Gweithredu

Bydd y cyd-ddarparwyr yn gweithredu i gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu yn unol â'r hyn fydd wedi ei gytuno gan y Bwrdd Arweiniol a'r Gweinidog;

Bydd y darparwyr yn darparu'r cyllid anghenrheidiol i ariannu'r ddarpariaeth fydd wedi ei chytuno gan y Bwrdd Arweiniol a'r Gweinidog, ac hefyd yn unol â'r protocolau cyllido sydd mewn lle gan Consortiwm.

Cam 8: Adroddiad Blynyddol

Ar derfyn pob blwyddyn bydd y cyd-ddarparwyr yn lluno Adroddiad Blynyddol fydd yn nodi eu cyrhaeddiad o ran yr elfennau nodwyd yn y Fanyleb, unrhyw lwyddiannau eraill ac unrhyw agweddau dysgu y byddant wedi eu hadnabod fel rhai angen sylw pellach.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth Ddysgu, ac wrth symud ymlaen yn dod yn rhan o'r wybodaeth a thystiolaeth gesglir fel Cam 1 o'r Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro.